# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod y Cabinet

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **14eg Chwefror 2023** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Menna Jones** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Iwan Evans (Swyddog Monitro), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth)** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **gwasanaethdemocratiaeth@gwynedd.llyw.cymru** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Strategaeth Cyfranogiad – Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** |

1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cabinet argymell y Strategaeth Cyfranogiad ddrafft i gyfarfod y Cyngor llawn ar 02/03/2023 er mwyn ei fabwysiadu.

2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, rhaid i'r Cyngor annog pobl leol i gyfranogi pan mae'n gwneud penderfyniadau a chyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad sy'n nodi'r ffyrdd y caiff pobl leol eu hannog i gymryd rhan ym mhroses y Cyngor o wneud penderfyniadau.

Gofynnir i'r Cabinet ystyried:

- Cynnwys y strategaeth – a yw'n glir ac yn ddealladwy ac yn cyflawni'r gofyn?
- A oes ymateb digonol wedi bod i'r sylwadau sydd wedi codi o'r ymgynghoriad cyhoeddus?

3 CYFLWYNIAD

Penderfyniad y Cyngor Llawn yw mabwysiadau Strategaeth Cyfranogiad. Cyn gwneud hynny mae'n ofynnol ymgynghori.  Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Ionawr 2023 ac adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriad isod.

## 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Rhaid i'r Cyngor baratoi strategaeth sy'n esbonio sut y bydd yn cydymffurfio â'r ddyletswydd annog cyfranogiad. Nod Strategaeth Cyfranogiad y cyhoedd felly yw annog pobl i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau a nodi'r trefniadau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu rhoi ar waith i ymwreiddio diwylliant o bartneriaeth gyda'r cyhoedd.

Dyma ein Strategaeth Cyfranogiad gyntaf, a disgwylir y bydd y Strategaeth yn esblygu ac yn gwella dros amser wrth i arferion da ddod i'r amlwg ac wrth i dechnoleg ddatblygu ymhellach.

- Beth sydd rhaid ei gynnwys yn y Strategaeth?

Yn ôl y Ddeddf, mae'n rhaid cynnwys yr elfennau a restrir isod:

a) ffyrdd o godi ymwybyddiaeth ymysg pobl leol o swyddogaethau prif gyngor;
b) ffyrdd o godi ymwybyddiaeth ymysg pobl leol o sut y mae dod yn aelod o'r prif gyngor, a'r hyn mae aelodaeth yn ei olygu;
c) ffyrdd o hwyluso mynediad i bobl leol at wybodaeth am benderfyniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, gan y prif gyngor;
d) ffyrdd o hyrwyddo a hwyluso prosesau y gall pobl leol eu defnyddio i gyflwyno sylwadau i'r prif gyngor am benderfyniad cyn, ac ar ôl, iddo gael ei wneud;
e) trefniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, at ddibenion dyletswydd y cyngor yn adran 62 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (dod â barn y cyhoedd i sylw pwyllgorau trosolwg a chraffu);
f) ffyrdd o godi ymwybyddiaeth ymysg aelodau'r prif gyngor o fanteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol.

- Sefydlu Strategaeth ac ymgynghori

Penderfyniad y Cyngor Llawn yw mabwysiadau Strategaeth Cyfranogiad yn dilyn ymgynghori gyda'r cyhoedd.

Cyn mynd allan i ymgynghori, lluniwyd Strategaeth ddrafft gan geisio sefydlu ein hamcanion o ran cyfranogiad yn unol â'r gofynion uchod o ran y ddeddf. Ein bwriad yw egluro sut bydd ein hamcanion yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r ffordd yr ydym yn ymgysylltu â phobl yng Ngwynedd. O fewn pob amcan, nodwyd canlyniadau clir a chamau gweithredu.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Ionawr 2023 oedd yn gyfle i unigolion roi barn ar gynnwys y Strategaeth ddrafft. Nodwyd yn yr ymgynghoriad fod bwriad i wella dyluniad y Strategaeth er mwyn ei wneud yn haws a mwy diddorol i'w darllen a'i deall cyn ei chyhoeddi ar ei ffurf derfynol. Roedd yr ymgynghoriad wedi ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor ac yn agored am 18 diwrnod.

Mae'r Strategaeth ddrafft wedi ei chynnwys yn **Atodiad A**, gyda'r addasiadau wedi eu amlygu mewn ysgrifen las. Mae enghraifft o'r dyluniad wedi ei gynnwys yn **Atodiad B** er mwyn i aelodau'r Cabinet ei gweld. Bydd y dyluniad a'r testun wedi eu diweddaru'n llawn cyn cyflwyno i'r Cyngor llawn ei fabwysiadu.

- Asesiad Ardrawiad

Dyletswyddau sector gyhoeddus . Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymru) wrth wneud penderfyniadau mae'n rhaid i'r Cyngor dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig.

Paratowyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb wrth i ni ymgynghori gyda'r cyhoedd ar y Strategaeth Cyfranogiad drafft. Diweddarwyd yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn dilyn yr ymgynghoriad ac mae wedi'i atodi yn **Atodiad C**. Nid oes ardrawiadau negyddol penodol wedi'u hadnabod o'r gwaith yma, ond mae'n ofynnol i ni fod yn wyliadwrus i beidio neilltuo neb o'r trefniadau nawr ac yn y dyfodol oherwydd gor-ddibyniaeth ar dechnoleg.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn llewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel fyd eang. Mae'r Strategaeth yn cyfrannu at gyflawni'r ddyletswydd yma, yn benodol cymunedau cydlynus drwy hyrwyddo mynediad a chyfraniad at brosesau democrataidd y Cyngor.

- Canlyniadau'r Ymgynghoriad

Cyflwynir isod grynodeb o ganlyniadau'r ymgynghoriad fesul amcan ynghyd ag unrhyw newid i'r Strategaeth Ddrafft yn sgil yr ymgynghoriad. Mae'r newidiadau wedi'u dangos mewn ysgrifen las ar y Strategaeth yn **Atodiad A**.

Derbyniwyd 89 ymateb i'r ymgynghoriad.

| **Amcan 1. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r swyddogaethau y mae'r Cyngor yn eu cyflawni i drigolion a busnesau lleol ac i ymwelwyr.** | | | |
|---|---|---|---|
| *cwestiwn yr ymgynghoriad - Ydi'r Strategaeth yn cynnwys ffyrdd o godi ymwybyddiaeth ymysg pobl leol o swyddogaethau y mae'r Cyngor yn eu cyflawni i drigolion a busnesau lleol ac i ymwelwyr?* | | | |
| Ydi | Nac ydi | Dim barn | Heb ymateb |
| **51** | **12** | **14** | **12** |

| |
|---|
| Er fod canran uchel o ymatebwyr wedi ymateb fod y strategaeth yn cynnwys ffyrdd o godi ymwybyddiaeth ymysg pobl leol o swyddogaethau y mae'r Cyngor yn eu cyflawni i drigolion a busnesau lleol ac i ymwelwyr, mae nifer o sylwadau naratif wedi'u derbyn. Mae'r naratif yn cynnwys<br>• Yr angen i symleiddio gwybodaeth ac ail-edrych ar strwythur ein safle we o safbwynt y defnyddiwr gan sicrhau fod popeth yn glir arno.<br>• Lle i wella cyswllt y strategaeth gyda busnesau<br>• Yr angen i gynnal mwy o gyfarfodydd gyda'r cyhoedd yn y gymuned i gael clywed barn am wahanol bynciau (yn hytrach na gweddarlledu pwyllgorau yn unig). Mae'r Cyngor yn hyrwyddo cyfleoedd rheolaidd i bobl Gwynedd ddarparu adborth am ein strategaethau, blaenoriaethau a meysydd gwaith. Yn ystod 2022 cynhaliwyd ymarferiadau ymgysylltu cyhoeddus ar faterion megis Strategaeth Adfywio'r Cyngor ("Ardal Ni 2035"), Premiwm Treth Cyngor ar Ail Gartrefi a Thai Gwag, Gwella Hawliau Tramwy ac Anghenion Tai Pobl Gwynedd. Dros y flwyddyn derbyniwyd adborth gan bron i 15,000 o unigolion a sefydliadau i'r ymarferiadau yma. Tra bod y cyfnod Covid wedi cyfyngu ar allu'r Cyngor i gynnal ymarferiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb mae hyn yn fater fydd yn derbyn sylw yn ystod 2023/24.<br>• Roedd sylw ynghylch rhannu gwybodaeth am y Cyngor ar hysbysfyrddau yn y gymuned, fodd bynnag, mae'n debyg y byddai hynny yn dyddio yn sydyn iawn. Mae gwybodaeth am waith y Cyngor, gan gynnwys adroddiadau pwyllgor, penderfyniadau, gwybodaeth ddefnyddiol ac ati yn cael ei rhannu'n gyson drwy sawl sianel:<br>- datganiadau i'r wasg a ddefnyddir gan newyddiadurwyr fel sail ar gyfer erthyglau, adroddiadau newyddion ac erthyglau papur newydd; -<br>- cyfrifon Twitter a Facebook corfforaethol y Cyngor;<br>- papur newydd dinesig "Newyddion" a ddosbarthir yn uniongyrchol i 63,000 o gartrefi'r Sir;<br>- drwy'r tudalennau pwyllgorau, "eich cynghorydd", newyddion ac ati ar wefan www.gwynedd.llyw.cymru.<br>• Cafwyd hefyd sylwadau ar waith y Cyngor e.e. penderfyniadau cynllunio, gwasanaethau bysiau, trefniadau mewn canolfannau ailgylchu ayyb, sydd y tu allan i ffinau'r ymgynghoriad hwn. |
| **Unrhyw newid** – yn sgil y sylwadau uchod, rydym wedi amlygu yn y Strategaeth fod y safle we yn cynnwys gwybodaeth am swyddogaethau y mae'r Cyngor yn eu cyflawni i drigolion, busnesau lleol ac i ymwelwyr. Yn ogystal, mae'r cynllun gweithredu eisoes yn nodi'r angen i adolygu cynnwys y safle we yn gyson, ac rydym wedi ychwanegu edrych ar strwythur y safle hefyd. |

| **Amcan 2. Rhannu gwybodaeth am sut i ddod yn Gynghorydd ac am yr hyn y mae rôl y Cynghorydd yn ei gynnwys.** | | | |
|---|---|---|---|
| *cwestiwn yr ymgynghoriad - Ydi'r Strategaeth yn cynnwys ffyrdd o godi ymwybyddiaeth ymysg pobl leol o sut y mae dod yn Gynghorydd, a'r hyn mae rôl Cynghorydd yn ei gynnwys?* | | | |
| Ydi | Nac ydi | Dim barn | Heb ymateb |
| **49** | **14** | **15** | **11** |

O’r sylwadau a dderbyniwyd, mae’n ymddangos fod y Strategaeth ddrafft yn cyflanwi’r gofyn yma i bobl Gwynedd. Nodwyd sylw fod angen annog mwy o amrywiaeth o waed newydd fel Cynghorwyr, a sylw penodol i godi ymwybyddiaeth o rôl Cynghorwyr yn ein hysgolion er mwyn magu diddordeb y genhedlaeth nesaf yn y maes. Fodd bynnag, roedd rhai sylwadau ynghylch nad oedd angen mwy (mewn nifer) o gynghorwyr, er mai nid hynny sydd dan sylw yn yr amcan hon.

Nodwyd hefyd werthfawrogiad am y Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd y Cyngor gyda sylw i ymestyn hyn i Gynghorau Cymuned, fodd bynnag mae hynny y tu hwnt i ddyletswydd y Cyngor.

**Unrhyw newid** – yn sgil y sylwadau uchod, rydym wedi amlygu yn y Strategaeth fod y ‘Datganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth’ gan y Cyngor yn annog pobl o bob math o gefndiroedd i fod yn sefyll mewn etholiadau llywodraeth leol ac wedi ymhelaethu i gynnig gwell esboniad ar ambell ddarn arall.

**Amcan 3. Sicrhau y gellir cael gafael haws ar wybodaeth am benderfyniadau sydd wedi'u gwneud, neu sydd i'w gwneud gan y Cyngor.**

*Cwestiwn yr ymgynghoriad - Ydi’r Strategaeth yn cynnwys ffyrdd o hwyluso mynediad i bobl leol at wybodaeth am benderfyniadau a wnaed, neu sydd i’w gwneud, gan y cyngor?*

| Ydi | Nac ydi | Dim barn | Heb ymateb |
|---|---|---|---|
| **42** | **12** | **21** | **14** |

Er fod canran uchel o ymatebwyr wedi ymateb fod y strategaeth yn cynnwys ffyrdd o hwyluso mynediad i bobl leol at wybodaeth am benderfyniadau a wnaed neu sydd i’w gwneud gan y Cyngor, mae mwy o sylwadau naratif wedi’u derbyn y tro hwn. Mae’r naratif yn cynnwys:

- Yr angen i symleiddio gwybodaeth am benderfyniadau
- Rhwystredigaeth ynghylch diffyg deialog digonol gyda’r cyhoedd – yn arbennig sgwrsio mewn cymunedau a/neu mwy o ymgynghoriadau fel hyn cyn i benderfyniadau gael eu gwneud
- Diffyg gwrando ar ôl derbyn sylwadau gan y cyhoedd
- Cyfle i’r Cyngor wneud gwell defnydd o gyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu negeseuon, ac i ystyried “polls” syml i gasglu barn y cyhoedd ar faterion penodol.

Mae’r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn gyfrifol am gefnogi adrannau a gwasanaethau’r Cyngor i gynnal deialog dwyffordd gyda’r cyhoedd ac i ddarparu adborth ar ddiwedd ymarferiadau. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i annog Gwasanaethau i gryfhau’r trefniadau ar gyfer darparu adborth i'r cyhoedd ar ddiwedd ymarferiadau ymgysylltu cyhoeddus.

Mae’r cyfnod Covid wedi cyfyngu ar allu’r Cyngor i gynnal ymarferiadau wyneb yn wyneb ac mae hyn yn fater fydd yn derbyn sylw yn ystod 2023/24.

**Unrhyw newid** – amlygu yn y strategaeth cyfranogiad fod y Taflenni Penderfyniad yn grynodeb o’r penderfyniad yn y pwyllgor e.e. penderfyniad ar dreth Cyngor ac nad oes rhaid disgwyl am y cofnod llawn. Fodd bynnag, mae rheolau penodol ynghylch yr isafswm sy’n rhaid ei gynnwys mewn taflenni penderfyniad ac ni ellir

eu symleiddio ymhellach na chyhoeddi ar rhai materion yn unig – mae'n rhaid cyheoddi ar bob penderfyniad.

**Amcan 4 - Cynnig a hyrwyddo cyfleoedd i drigolion roi adborth i'r Cyngor, gan gynnwys deisebau, sylwadau, cwynion a mathau eraill o sylwadau.**

*Cwestiwn yr ymgynghoriad (a) - Ydi'r Strategaeth yn cynnwys ffyrdd o gynnig a hyrwyddo cyfleoedd i drigolion roi adborth a sylwadau i'r Cyngor am benderfyniad cyn, ac ar ôl, iddo gael ei wneud?*

| Ydi | Nac ydi | Dim barn | Heb ymateb |
|---|---|---|---|
| **43** | **16** | **18** | **12** |

*Cwestiwn yr ymgynghoriad (b) Ydi'r Strategaeth yn cynnwys trefniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, at ddibenion dyletswydd y cyngor yn adran 62 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i ddod â barn y cyhoedd i sylw pwyllgorau trosolwg a chraffu?*

| Ydi | Nac ydi | Dim barn | Heb ymateb |
|---|---|---|---|
| **39** | **13** | **25** | **12** |

O'r sylwadau a dderbyniwyd roedd annogaeth i'r Cyngor fwrw ati i greu mwy o gyfleon i'r cyhoedd roi adborth a chyfrannu eu sylwadau ar benderfyniadau allweddol, yn arbennig gan ystyried ffyrdd syml a rhwydd i wneud hynny. Roedd pwyslais yn y sylwadau i'r Cyngor feddwl o safbwynt y defnyddiwr, sy'n cyd-fynd gydag egwyddorion y Cyngor o roi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth sy'n cael ei wneud.

Roedd cefnogaeth i gynnal ymgynghoriadau a chyfleon i'r cyhoedd roi sylwadau, fodd bynnag derbyniwyd beirniadaeth ar ddiffyg adrodd yn ôl ar y canlyniadau. Noder fodd bynnag fod lle i adrodd yn ôl ar ganlyniadau ymgynghoriadau ar y safle we, trwy ddolen i adroddiadau i bwyllgorau.

Nodwyd hefyd farn gan unigolyn y dylid cysylltu yn uniongyrchol gyda busnesau i sicrhau eu barn pan fo unrhyw ymgynghoriad ar agor.

Wrth ymgysylltu ar bynciau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â busnesau lleol, mae gwybodaeth yn cael ei chyfathrebu drwy'r Rhwydwaith Busnes a chyfrifion gwefannau cymdeithasol yr Adran Economi a Chymuned. Yn fwy cyffredinol, mae pob ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus yn cael ei hyrwyddo drwy sawl sianel gan gynnwys datganiadau i'r wasg, negeseuon gwefannau cymdeithasol, gwybodaeth a chyswllt i'r holiaduron o dudalen gartref gwefan y Cyngor ac ati.

Nid oedd sylw penodol ar ddod â barn i sylw'r pwyllgorau trosolwg a chraffu. Fodd bynnag, cyflwynwyd rhai sylwadau a welwyd eisoes ynghylch cyfathrebu clir a syml, rhwystredigaeth am ddiffyg deialog go iawn a gwybodaeth am ganlyniadau ymgynghoriadau. Yn osystal nodwyd yr angen i amlygu sut bydd y Cyngor yn mynd ati i gyrraedd y rhai anodd i'w cyrraedd yn y dyfodol.


| |
|---|
| **Unrhyw newid** – mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn cefnogi ac yn cyd-fynd â chyfeiriad y camau gweithredu ar gyfer y cyfnod i ddod. Fodd bynnag rydym wedi ymhelaethu ar y camau ar gyfer adrodd yn ôl yn dilyn ymgynghoriadau cyhoeddus. |

| **Amcan 5. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â thrigolion i Gynghorwyr.** | | | |
|---|---|---|---|
| *cwestiwn yr ymgynghoriad - Ydi'r Strategaeth yn cynnwys ffyrdd o godi ymwybyddiaeth ymysg aelodau'r prif gyngor o fanteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol?* | | | |
| Ydi | Nac ydi | Dim barn | Heb ymateb |
| **38** | **9** | **27** | **15** |
| O'r sylwadau a dderbyniwyd, roedd cefnogaeth i godi ymwybyddiaeth Cynghorwyr i fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â thrigolion, gan annog mwy i wneud hynny ac i'r Cyngor sicrhau hyfforddiant ar gyfer defnydd priodol o'r cyfryngau cymdeithasol gan Gynghorwyr. Mae'r Cyngor yn cynnig hyfforddiant gwefannau cymdeithasol arbenigol i gynghorwyr ers sawl blwyddyn bellach.<br>Nodwyd hefyd sylwadau ynghylch gor-ddibyniaeth ar gyfryngau cymdeithasol gan nad yw pawb yn eu defnyddio, a'r angen i Gynghorwyr fod yn ymwybodol o'r risgiau all godi wrth ddefnyddio'r cyfryngau hyn.<br>Yn ychwanegol, rhoddwyd sylw yngylch yr angen i sicrhau fod 75% o'r etholwyr yn pleidleisio ar unrhyw benderfyniad gan y Cyngor. Byddai hyn yn ymarferol amhosib. Mae Cynghorydd lleol wedi ei (h)ethol gan y bobl i'w cynrychioli ar y Cyngor gydag unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud. | | | |
| **Unrhyw newid** – mae addasiad byr i'r Strategaeth trwy dynnu sylw'r Cynghorwyr mai un modd o gyfathrebu yw'r cyfryngau cymdeithasol a bod risgiau posib wrth ddefnyddio'r cyfrwng. | | | |

- <u>Y Gymraeg</u>

Mae'n ofynnol ymgynghori ar effaith unrhyw bolisi ar y Gymraeg. Mae'r ymatebion i'w gweld isod. Gofynnwyd:

Beth ydych chi'n gredu fydd effaith y Strategaeth Cyfranogiad ar y Gymraeg, y cyfleoedd i'w defnyddio a'i statws o fewn y gymuned?




Gofynnwyd hefyd:
A oes gennych unrhyw sylwadau am eich dewis uchod, er enghraifft, a oes yna unrhyw gyfleoedd i gael effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg a'r defnydd ohoni, neu i leihau unrhyw effeithiau negyddol?

Ymysg y sylwadau perthnasol i'r Strategaeth Cyfranogiad oedd:

- "*Mae gwneud gwaith y cyngor, sydd yn naturiol Gymraeg yn fwy amlwg i'r cyhoedd yn gadarnhaol i'r Gymraeg- p'un ai ydi rhywun yn ei medru eu hunain*."
- *"Dwi o'r farn byddai cynyddu cysylltiad pawb â'r cyngor yn beth manteisiol i'r iaith- onid drwy bobl yn ei gweld yn cael ei defnyddio'n rhugl ac aml mewn cyd-destunau o bwys."*
- *"The history and culture of the area should be celebrated along with the Welsh language."*

Derbyniwyd sylwadau na ddylai'r Cyngor ddefnyddio'r Gymraeg o gwbl hefyd.

## 5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- Ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal 06/01/2023 – 23/01/2023
- Cyflwyno canlyniadau'r ymgynghoriad a'r Strategaeth Ddrafft i'r Cabinet – 14/02/2023 er mwyn ei argymell i'r Cyngor llawn.
- Cyngor Llawn i fabwysiadu'r Strategaeth Cyfranogiad – 02/03/2023

## 6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Swyddog Monitro:

Mae'r tim cyfreithiol a minnau wedi cyfrannu at y gwaith o lunio'r strategaeth ddrafft. Rwy'n fodlon fod y broses angenrheidiol wedi ei dilyn er creu yr argymhelliad ac yn cloriannu yr ystyriaethau perthnasol yn briodol. Bydd gofyn i'r Cabinet ystyried y materion yma a chanlyniadau'r ymgynghoriad wrth ddod at ei argymhelliad.

Prif Swyddog Cyllid:

Dim i’w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

ATODIADAU:

Atodiad A - Y strategaeth ddrafft ar ffurf testun yn unig.  Mae’r strategeaeth wedi’i haddasu yn dilyn sylwadau’r ymgynghoriad.  Mae’r addasiadau wedi’u dangos mewn testun glas.

Atodiad B – Dyluniad y Strategaeth (drafft 1) er gwybodaeth

Atodiad C - Asesiad effaith cydraddoldeb